# PWYLLGOR ARCHWILIO 15/7/14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Huw Edwards, Trevor Edwards, Tom Ellis, John B. Hughes, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Angela Russell, Gethin Glyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Alan Hughes (Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol - Swyddfa Archwilio Cymru), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol), Delyth Wyn Jones-Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans, Michael Sol Owen a Robert J. Wright.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Mai 2014, fel rhai cywir.

**3. ALLDRO REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD TERFYNOL**

Cyflwynwyd –
(a) adroddiad y Pennaeth Cyllid ar sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2013/14.
(b) taflen benderfyniad Cabinet 10 Mehefin.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau. Cyfeiriodd at drosglwyddiadau ariannol i glirio gorwariant yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol er rhoi dechrau diddyled i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gychwyn 2014/15.

Nodwyd y trosglwyddwyd arian i'r Gronfa Ddiswyddo Gorfforaethol gyda diswyddiadau yn anorfod yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd yr hinsawdd ariannol.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod penderfyniadau'r Cabinet wedi galluogi cau cyfrifon terfynol 2013/14 yn drefnus. Tynnwyd sylw y trosglwyddwyd arian unwaith ac am byth o'r gyllideb wrth gefn i gronfa benodol ar gyfer cost sefydlu Trefn Gwynion newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y sefyllfa arbedion, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod gwaith cychwynnol o asesu rhaglenni arbedion yr adrannau yn mynd rhagddo, gyda chynlluniau arbedion cadarn yn cael eu cyflwyno gerbron gweithgor o'r Fforwm Craffu cyn mynd gerbron y Cabinet er penderfyniad.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed dileu swyddi gwag, nododd y Pennaeth Cyllid bod arbediad yn deillio o hyn gan fod y gyllideb berthnasol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y swyddi a gellir cynaeafu'r arbedion.

Holodd aelod os oedd gan y Cyngor fwriad gofyn i staff a fyddent yn dymuno cymryd diswyddiad gwirfoddol.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod rhai cynghorau wedi cynnig yr opsiwn o ddiswyddiad gwirfoddol i'w staff a bod hynny mewn rhai achosion wedi achosi problemau mewn rhai adrannau o'r cynghorau rheiny oherwydd y nifer uchel o geisiadau. Eglurodd fod rhaid dethol cynlluniau arbedion sy'n isafu'r niwed i bobl Gwynedd, a rheoli disgwyliadau staff yng nghyd-destun y broses. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid bod diswyddiadau gwirfoddol am olygu arbedion refeniw parhaol a byddai ef yn negodi o ran cyfraniad yr adrannau perthnasol a'r Gronfa Diswyddo Gorfforaethol tuag at iawndal diswyddo.

Gwnaed sylw bod balansau ysgolion cynradd wedi cynyddu. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod trafodaethau yn cael eu cynnal yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion yng nghylch y mater. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid bod llythyr wedi ei anfon at yr ysgolion yn awgrymu na ddylai reserfau ysgolion fod yn fwy na 5% o'r gyllideb neu £50,000, p'run bynnag fo leiaf, ond ni lwyddwyd i sefydlu polisi yn gorfodi hynny oherwydd gwrthwynebiad rhai cyrff llywodraethu ysgolion.

Cwestiynodd aelod sut allai'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd cadw o fewn y gyllideb ar gyfer 2014/15, o ystyried bu trosglwyddiadau ariannol i glirio gorwariant yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2013/14.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod mwy o alw wedi bod ar y gwasanaeth yma yn y 6 mis diwethaf gyda swm eisoes wedi ei gynnwys yn gyllideb 2014/15 ar gyfer y twf yn ôl demograffi. Ychwanegodd bod yr adrannau yn ceisio darganfod ateb hirdymor gan ail-edrych ar y trefniadau presennol a rheoli'r galw.

Tynnodd aelod sylw at y £1.727m o'r Cyfrif Cyllid Tai a neilltuwyd am y tro mewn cronfa benodol, gyda golwg ar ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth pensiwn a etifeddwyd yn anochel wrth drosglwyddo'r stoc tai. Eglurodd y Pennaeth Cyllid oherwydd y sefyllfa gyllidebol heriol y rhoddwyd yr arian wrth gefn gyda'r gobaith y gellir ei drosglwyddo i'r Gronfa Bensiwn. Ychwanegodd ei fod yn ddarbodus i roi'r arian wrth gefn, fel byddai modd ei ddefnyddio ar gyfer blaenoriaeth arall os cyfyd amgylchiadau arbennig neu argyfyngus.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 4. DATGANIAD O GYFRIFON 2013/14

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Pennaeth Cyllid. Tynnwyd sylw mai cyfrifon drafft heb eu harchwilio a gyflwynir yma, gyda'r fersiwn terfynol i'w gyflwyno er cymeradwyaeth y Pwyllgor yng nghyfarfod 25 Medi 2014.

Nododd yr Uwch Reolwr Cyllid bod y Cabinet yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2014 wedi cymeradwyo cario drosodd tanwariant net gwasanaethau o £362,000. Llongyfarchwyd yr adrannau am eu gwaith gyda'r tanwariant yn cynrychioli dim ond 0.14% o'r cyllidebau.

Nodwyd yng nghyswllt sefyllfa'r balansau ar ddiwedd 2013/14 eu bod wedi cynyddu o £8.1 miliwn i £8.4 miliwn. Ychwanegwyd bod y darlun ariannol yn ei gyfanrwydd yn iach.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed 'Nodyn 20 – Dyledwyr Tymor Byr', nododd yr Uwch Reolwr Cyllid bod yr hyn a nodir o dan y pennawd 'Endidau Eraill ac Unigolion' yn dangos y sefyllfa ar adeg arbennig gyda'r darlun yn newid yn ddyddiol.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed gwahaniaeth yn y ffigyrau ar gyfer 2012/13 a 2013/14 o dan y pennawd 'Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd' ar dudalen 9 o'r cyfrifon

drafft, tynnwyd sylw at bwynt bwled a oedd yn esbonio bod newid yn y trefniadau adrodd i adlewyrchu newid ffynhonnell ariannu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nodwyd na bennir unrhyw swm na chanran penodol y dylid ei gadw fel reserfau. Ychwanegwyd y cynhelir asesiad risg o ran yr angen am reserfau ynghlwm a'r rhagolygon ariannol, darpariaeth ar gyfer chwyddiant, ayyb, a bod swm y reserfau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2013/14 yn dderbyniol o ran trosiant y Cyngor.

Diolchwyd i'r holl staff ynghlwm â pharatoi'r cyfrifon a holl staff y Cyngor sy'n ymwneud â chyllidebau'r Cyngor am eu gwaith caled a manwl.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2013/14.**

## 5. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2013/14

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Nodwyd bod y Cabinet Anffurfiol yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf wedi nodi eu cefnogaeth i'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Adroddwyd bod y fframwaith wedi bod gerbron y Grŵp Rheoli Corfforaethol ar 14 Gorffennaf, ac roedd y Grŵp yn awgrymu un addasiad, sef ystyried newid sgôr effaith Hyfforddi a Datblygu Aelodau o 7 i 5 oherwydd bod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu'r rhaglen hyfforddiant.

Adroddwyd yn dilyn sylw a wnaed gan aelod yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio bod Cydraddoldeb wedi ei ychwanegu i'r fframwaith.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed pwysigrwydd ymgysylltu, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau mai prif ffrwd gwaith y Cabinet oedd Ffordd Gwynedd, sef rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bob penderfyniad. Ychwanegodd y byddai yn cymryd amser i newid y diwylliant yn y Cyngor ond byddai o fudd mawr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'r Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar y fframwaith llywodraethu yn rheolaidd, gan fod hyn yn un o rolau allweddol y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**
**(a) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14 yn ddarostyngedig i newid sgôr effaith Hyfforddi a Datblygu Aelodau i 5;**
**(b) argymell bod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn arwyddo'r datganiad.**

## 6. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfodydd o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2014 i ystyried saith archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2014 a 31 Mawrth 2014 sef -
a) Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion
b) Gwirio Mesuryddion Perfformiad
c) Grant Effeithlonrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion
ch) Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo
d) Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau
dd) Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor
e) Trefniadau Hawlio Goramser

Yn ogystal ag adroddiad Dilyniant Siopau Gwynedd a oedd wedi derbyn barn anfoddhaol ac adroddiad Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion a oedd wedi derbyn barn B.

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed archwiliad Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor, eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod rhaid cael person yn cysgu mewn yn ychwanegol i'r ddau sydd ar ddyletswydd oherwydd rheolau tân a safonau penodol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Yn dilyn pryder a fynegwyd gan y Gweithgor wrth ystyried yr adroddiad Trefniadau Hawlio Goramser, bod Cyfieithwyr y Cyngor yn teithio i gyfarfodydd lle nad oes eu hangen am nad oedd yr unigolion y byddai eisiau'r gwasanaeth wedi hysbysu na fyddent yn mynychu, adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod Archwilio Mewnol wedi edrych i mewn i'r mater. Eu casgliad oedd nad oedd hyn yn broblem bellach, er ei fod wedi bod ar un adeg, oddeutu 2012.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2014**
Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2014. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 9 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 3 o archwiliadau dilyniant.

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

Nododd aelod y dylid ystyried gwahodd staff o Blas Maesincla, Caernarfon i gyfarfod y Gweithgor pan ystyrir adroddiad Plas Ogwen, Bethesda er mwyn rhannu arfer da rhwng y staff gan fod yr archwiliad yna wedi derbyn barn B.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y tybir bod rhannu ymarfer da rhwng Cartrefi Preswyl yn digwydd tu allan i'r gyfundrefn archwilio a bod gwaith wedi ei gwblhau yn ddiweddar i wella trefniadau ym Mhlas Maesincla. Ychwanegodd ynghyd a staff o Blas Ogwen, y byddai rheolwr efo trosolwg o'r holl Gartrefi Preswyl yn cael gwahoddiad i'r Gweithgor a allai rhoi'r darlun cyflawn.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 30 Mehefin 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**
**(b) bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C':-**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, John Pollard a'r Cynghorwyr Anwen Davies a Trevor Edwards.**

**8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 1 Gorffennaf 2014 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol:-

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 65 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 3 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 15 |
| Disgwyl Adolygiad | 4 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 8 |
| Cyfanswm | 97 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 1 |

Adroddwyd yn dilyn trafodaethau gyda'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant penderfynwyd na fyddai archwiliad yn cael ei gynnal yng nghyswllt adolygiad Tai Gofal Ychwanegol yn 2014/15. Nodwyd yn dilyn derbyn cais gan y Pennaeth Rheoleiddio i gynnal archwiliad Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch yr ychwanegwyd yr archwiliad i Gynllun Archwilio Mewnol 2014/15.

Nododd aelod bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 4 Gorffennaf wedi rhoi ystyriaeth i drefniadau hylendid bwyd yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Rhaid sicrhau bod cyfathrebu clir gyda'r wasg cyn rhyddhau ymatebion ffurfiol y Cyngor mai diffygion yn nhrefniadau mewnol yn hytrach na safonau hylendid bwyd busnesau oedd dan sylw.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.05pm